Cofnodion o Bwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 9fed Tachwedd 2005 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Cyng Ros Bellamy, Cyng Pamela Steane Price, Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Roy Davies, Cyng Fran Murphy, Mr Des Davies Swyddog Technegol. Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau Cyng Paul Faulkner,

6636 / Tachwedd / 05 Ceisiadau Cynllunio i'w Hystyried:

E/11321 NEWID DEFNYDD SEFYDLIAD MANWERTHU PRESENNOL I DDEFNYDD MANWERTHU CYMYSG (A1) A SIOP BYRBRYDAU LLYSIEUOL A BWYDYDD CYFLAWN.
Sylw :- Mae traffig yn yr ardal yn achosi pryder i drigolion lleol ar hyn o bryd Wrth ystyried unrhyw ddatblygiad yn y rhan honno o'r Dref, rhaid nodi effeithiau o ran mynediad, parcio a llif traffig. Penderfynwyd ar hyn gyda 4 Pleidlais o blaid ac 1 bleidlais yn erbyn.

E/ 11449 GAREJ YM MLOT 22, PARC PENCRUG.
Cytuno – dim sylw.

E/ 11448 GAREJ YM MLOT 24, PARC PENCRUG
Cytuno - dim sylw.

E/ 11389 UN ANHEDDLE PRESWYL (BYNGALO) A GAREJ PLOT WRTH YMYL 13, STRYD RHOSMAEN
Cytuno – dim sylw

E/11547 DYMCHWEL YR ADEILAD 'BULK TANK', MUR O FLOCIAU CONCRIT, STEPIAU A GWAREDU'R SIED AGORED GYDA FFRÂM DDUR A THO GWRYMIOG, NID YW O'R UN CYMERIAD, ARDDULL A'R EIDDO YN DINEFWR HOME FARM
Cytuno – dim sylw

6637 / Tachwedd /05 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio
Rhoddwyd ganiatâd i'r ceisiadau canlynol gan y Cyngor Sir:

E/11130 Ystafell wydr newydd yn Fferm Glynceirch
E/ 11026 Addasu fflat llawr cyntaf sydd â 2 ystafell wely yn 2 fflat 1 ystafell wely yn Stryd y Brenin.
E/10827 Ffenest bae newydd ym mlaen 10, Heol Newydd.
E/09432 Adeiladu tafarn letya yn hen iard CSC, Stryd Rhosmaen.

6638 / Tachwedd / 05 Adroddiad ar Lwybrau Troed

Bydd y Swyddog Technegol yn cysylltu â Mr Thomas Fferm Glynceirch er mwyn cadarnhau ei gymeradwyaeth i'r gwaith draenio ar y llwybr troed ar ei dir.

Bydd y pwyllgor yn argymell i'r Cyngor Llawn y dylai'r Cyngor Sir fod yn ymwybodol o ddirywiad y trac sy'n arwain at Ysgubor Abad oherwydd y traffig trwm sy'n ei ddefnyddio.

6639 /Tachwedd /05 Cludiant

1. Cais am gyfyngiad aros ar gyffordd Stryd Rhosmaen a Heol Alan. **Croesawir.**
2. Cais am gyfyngiadau aros ar gyffordd Stryd Rhosmaen a Maes Mwyn. **Croesawir**

6640 / Tachwedd / 05 Gohebiaeth

Seminar Cynllunio CSC i'w gynnal ar y 10fed Ionawr. Argymhellir i'r Cyngor Llawn y dylai'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd fynychu, costau teithio i'w talu gan y Cyngor.

1. Hysbysiad cychwynnol gan Bibell y Grid Cenedlaethol. Nodwyd.

2. Cynllun Plismona Blynyddol. Y Clerc i ddychwelyd holiadur yn tynnu sylw at yr angen i :-

- Ystyried Materion Traffig
- Rhagor o blismyn i'w gweld o amgylch y lle
- Gwell amserau ymateb o ganolfannau galw i'r heddlu lleol.
- Materion lleol sef pobl ifanc yn yfed alcohol ym Mharc Le Conquet

Daeth y cyfarfod i ben am 7.55pm.